# Dod yn Arolygydd Cymheiriaid yn y sector Addysg Athrawon

Ydych chi'n barod i ddechrau'ch cais? Neidiwch i'r cais

## Ynglŷn â'r rôl

Rydym yn chwilio am uwch arweinwyr mewn Addysg Gychwynnol Athrawon i fod yn Arolygwyr Cymheiriaid ar gyfer y sector. Mae Arolygwyr Cymheiriaid yn rhan allweddol o'n tîm arolygu. Os ydych chi'n cymhwyso fel Arolygydd Cymheiriaid, byddwch yn defnyddio'ch gwybodaeth a'ch medrau i arsylwi sesiynau, siarad â dysgwyr, a chraffu ar samplau o'u gwaith. Byddwch yn cael trafodaethau gydag arweinwyr partneriaeth a staff, ac yn defnyddio'ch arsylwadau i ddrafftio adrannau o'r adroddiad arolygu. Mae bod yn arolygydd cymheiriaid yn gyfle gwych i weld arfer effeithiol lle mae'n digwydd bob dydd, a mynd â'r enghreifftiau hyn yn ôl i'ch darparwr i gefnogi gwelliant.

## Cymhwysedd

**Arolygwyr Cymheiriaid**

Byddwch yn gallu arolygu trwy gyfrwng y Gymraeg a/neu'r Saesneg, a byddwch:
- yn arweinydd mewn darparwr addysg gychwynnol i athrawon mewn prifysgol, yn gweithio ar lefel arweinydd rhaglen neu'n uwch; neu
- yn uwch arweinydd / uwch fentor mewn ysgol arweiniol yn darparu addysg gychwynnol i athrawon mewn partneriaeth â phrifysgol
- mewn swydd barhaol
- yn meddu ar o leiaf ddwy flynedd o brofiad arwain
- yn meddu ar o leiaf bum mlynedd o brofiad addysgu
- yn cael cefnogaeth  eich Is-Ganghellor / Pennaeth / Cadeirydd y Llywodraethwyr / Rheolwr Gyfarwyddwr

Rhaid i chi feddu ar y canlynol:
- dealltwriaeth ddiweddar a chadarn o faterion addysg, gan gynnwys diwygio addysg yng Nghymru
- medrau cyfathrebu a TGCh da
- gallu i weithio yn unol â therfynau amser tynn
- medrau gwaith tîm cadarn.

Os gwnaethoch gais blaenorol i ddod yn Arolygydd Cymheiriaid, ond ni chawsoch wahoddiad i'r hyfforddiant, byddem yn hapus i ystyried cais newydd os ydych chi o'r farn bod eich profiad yn bodloni'n gofynion erbyn hyn.

## Dewis a hyfforddi

Byddwn yn cysylltu â chi ynglŷn â chanlyniad eich cais erbyn yr **w/c 24 Gorffennaf**. Bydd yr hyfforddiant ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg, a bydd yn cynnwys:

- **Tri diwrnod o hyfforddiant ar-lein**
  Mae hyn yn cynnwys asesiadau ar lafar ac yn ysgrifenedig, a fydd yn cynnwys:
  - Un diwrnod ar-lein ar **20 Medi**
  - Dau ddiwrnod wyneb yn wyneb ar 11 a 12 Hydref

- **Arolygiad(au) prawf**
  Cewch eich defnyddio mewn arolygiad asesedig, a bydd yr arolygydd arweiniol yn graddio eich perfformiad. Bydd angen i chi gael gradd A neu B i lwyddo.

Mae hyfforddiant i Arolygwyr Cymheiriaid yn rhad ac am ddim.

## Gwiriad y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd

Os cewch eich gwahodd i'r hyfforddiant, gofynnwn i chi gael gwiriad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (GDG). Dylai'r dystysgrif fod yn dystysgrif fanwl, nad yw'n fwy na thair oed a dylai gynnwys y categori gweithlu plant. Bydd angen y gwiriad hwn arnoch i fod yn Arolygydd Cymheiriaid â chofrestriad llawn.

## Defnyddio

Ein nod yw defnyddio arolygwyr cymheiriaid dim mwy na theirgwaith y flwyddyn. Pan gewch eich defnyddio mewn arolygiad, byddwn yn talu cyfraniad i'ch ysgol am athro cyflenwi, ar gyfradd safonol. Byddwn yn talu'ch costau teithio a chynhaliaeth hefyd.

Bob blwyddyn, rydym yn gwahodd pob Arolygydd Cymheiriaid i fynychu hyfforddiant diweddaru yn ystod tymor yr haf; rhaid i chi fynychu'r hyfforddiant hwn er mwyn gallu parhau i fod yn arolygydd cymheiriaid. Ni chodir tâl am yr hyfforddiant, ond ni allwn dalu costau cyflenwi na chostau teithio a chynhaliaeth.

## Sut i wneud cais

**Ffurflen gais ar-lein:** dolen
**Dyddiad cau:** 12 Gorffennaf, 4 y.p.

Mae unrhyw feysydd â * wrth eu hymyl yn orfodol, felly ni fyddwch yn gallu cyflwyno'r ffurflen heb roi ymateb yn y meysydd hyn. Os na fyddant yn berthnasol i chi, rhowch 'Dd/B'.

## Manylion cyswllt

Mae'r pecyn hwn yn cynnwys yr holl wybodaeth y mae arnoch ei hangen am y rôl a'r broses ymgeisio, ond os oes gennych ragor o gwestiynau, anfonwch neges e-bost atom: digwyddiadau@estyn.llyw.cymru neu ffoniwch ni ar 02920 44 6510.

Edrychwn ymlaen at dderbyn eich cais.